Swansea University Prifysgol Abertawe | Sustainability Cynaliadwyedd

# Polisi a Gweithdrefnau Buddsoddi Moesegol

## 1. Cyflwyniad

1.1 Mae cronfeydd gwaddol y Brifysgol yn cael eu buddsoddi drwy ei rheolwyr buddsoddi, sef Barclays Wealth ar hyn o bryd. Bwriad Prifysgol Abertawe yw buddsoddi'r cronfeydd hyn mewn ffyrdd sy'n gyson â'r genhadaeth a'r gwerthoedd a fynegir yng Ngweledigaeth Strategol a Diben y Brifysgol. I'r perwyl hwn, mae'r Brifysgol wedi ymrwymo i fabwysiadu'r Polisi Buddsoddi Moesegol canlynol o ran buddsoddi'r cronfeydd hyn.

1.2 Rydym wedi ymrwymo i sicrhau bod y Brifysgol yn gwneud pob penderfyniad buddsoddi mewn modd cyfrifol gyda'r brif egwyddor arweiniol o gynhyrchu arian, drwy incwm neu dwf cyfalaf, i ddatblygu gwaith y Brifysgol ymhellach. Wrth wneud penderfyniadau buddsoddi, bydd materion cymdeithasol hefyd yn cael eu hystyried.

## 2. Cwmpas

2.1 Mae'r polisi hwn yn berthnasol i gwmpas llawn buddsoddiadau cronfeydd gwaddol y Brifysgol.

2.2 Mae'r cynlluniau pensiwn a ddefnyddir gan y Brifysgol wedi'u cyfansoddi fel cyrff corfforaethol ar wahân gyda'u Byrddau Ymddiriedolwyr eu hunain, ac nid yw'r polisi hwn yn berthnasol iddynt.

## 3. Polisi

3.1 Mae'r Brifysgol wedi ymrwymo i sicrhau ei bod yn gwneud pob penderfyniad buddsoddi mewn modd cyfrifol gyda'r bwriad o sicrhau cydbwysedd rhwng sicrhau'r enillion mwyaf posibl drwy incwm neu dwf cyfalaf i hyrwyddo gwaith y Brifysgol, a buddsoddi mewn modd moesegol.

3.2 Nid yw'r Brifysgol yn buddsoddi'n uniongyrchol, neu drwy gronfeydd cyfunol, mewn sefydliadau sy'n ymwneud yn bennaf â'r diwydiant tybaco, neu sy'n cael swm sylweddol o'u trosiant o gynhyrchu cynhyrchion tybaco. At ddibenion y polisi hwn, bydd 'sylweddol' yn golygu mwy na 10% o'u trosiant.

3.3 Nid yw'r Brifysgol yn buddsoddi'n uniongyrchol, neu drwy gronfeydd cyfunol, mewn sefydliadau sy'n ymwneud yn bennaf ag echdynnu tanwydd ffosil, a chronfeydd sy'n gysylltiedig â chynhyrchu tanwydd ffosil.

3.4 Wrth benderfynu ar gwmnïau i fuddsoddi ynddynt, ni fydd y Brifysgol yn buddsoddi'n ymwybodol mewn cwmnïau a sefydliadau eraill y bernir bod eu gwerthoedd cyfrifoldeb cymdeithasol corfforaethol yn anghyson â rhai'r Brifysgol; neu y mae ei weithgareddau, ym marn rheolwr y gronfa, yn anghyson â chenhadaeth a gwerthoedd y Brifysgol neu yn groes i gyfraith ryngwladol.

## 4. Gweithdrefn ar gyfer ymgysylltu

4.1 Bydd y polisi hwn yn cael ei bostio ar dudalennau gwe'r Brifysgol er mwyn galluogi rhanddeiliaid perthnasol i ymgysylltu ag ef.

Dyddiad yr adolygiad diwethaf: Awst 2022

4.2 Bydd y Brifysgol yn cyhoeddi rhestr flynyddol o'r holl gwmnïau a chronfeydd lle buddsoddir cronfeydd gwaddol. Bydd y rhestr hon ar gael ar gais gan y Prif Swyddog Ariannol.

4.3 Gall unrhyw gorff cynrychiadol yn y Brifysgol (e.e. Undeb y Myfyrwyr, Undeb Llafur neu Bwyllgor) gyflwyno sylwadau i'r Is-bwyllgor Buddsoddi ynghylch unrhyw fuddsoddiad mewn cwmni neu gronfa y mae ei weithgareddau neu ei werthoedd yn ymddangos, ar sail tystiolaeth glir, mor bell o werthoedd craidd y Brifysgol y maent yn creu sail i bryder difrifol. Dylid cyflwyno sylwadau o'r fath yn y lle cyntaf i Brif Swyddog Ariannol y Brifysgol.

4.4 Bydd yr Is-bwyllgor Buddsoddi yn ystyried unrhyw sylwadau o'r fath, mewn ymgynghoriad â'r Rheolwr Buddsoddi penodedig, yn erbyn y meini prawf canlynol:

- A yw'r materion a godwyd yn cael eu cyfiawnhau
- I ba raddau y maent yn golygu bod y buddsoddiad yn groes i genhadaeth a gwerthoedd y Brifysgol, fel yr adlewyrchir yn y Weledigaeth Strategol a'r Diben
- Effaith ar risg, adenillion ac arallgyfeirio'r portffolio buddsoddi

Yn seiliedig ar y meini prawf hyn, bydd yr Is-bwyllgor Buddsoddi yn penderfynu parhau â'r buddsoddiad perthnasol neu i ddadfuddsoddi, a bydd yn cyfleu'r rhesymau dros hyn i'r grŵp sy'n mynegi’r pryder.

4.5 Caiff y polisi hwn ei adolygu'n flynyddol yn unol â System Rheoli Amgylcheddol y Brifysgol (EMS).

**5. Adolygu'r Polisi a pherchnogaeth**

5.1 Bydd y polisi hwn yn eiddo i'r Prif Swyddog Ariannol a chaiff ei adolygu'n flynyddol gan yr Is-bwyllgor Buddsoddi.

5.2 Mae'r Brifysgol yn ymrwymo i gynnwys cynrychiolaeth myfyrwyr ar y pwyllgor hwn o 2022.

Yr Athro Paul Boyle, Awst 2022
**Is-ganghellor Prifysgol Abertawe**

| Cofnod y ddogfen | Dyddiad |
|---|---|
| Datblygu ac adolygu cychwynnol | Mehefin 2014 |
| Adolygwyd a diweddarwyd y ddogfen<br>- Adran 3.3 wedi'i hychwanegu i adlewyrchu dull gweithredu ers 2019 ynghylch dadfuddsoddi'n llawn mewn tanwydd ffosil<br>- Ychwanegwyd Adran 5.2 i adlewyrchu cynrychiolaeth myfyrwyr<br>- Diweddarwyd i adlewyrchu newid mewn terminoleg parthed y Cynllun Strategol/Gweledigaeth a Diben<br>- Diweddarwyd teitl rôl y Prif Swyddog Ariannol. | Awst 2022 |